

DYDD IAU, 27 EBRILL 2023

**AT: HOLL AELODAU Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG** A GYNHELIR YN Y SIAMBR - NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN. SA31 1JP AC O BELL AM 10.00 YB, DYDD GWENER, 5ED MAI, 2023 ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

Swyddog Democrataidd:	Julie Owens
Ffôn (llinell uniongyrchol):	01267 224 088
E-Bost:	juowens@sirgar.gov.uk
Cyfarfod aml-leoliad yw hwn. Gall aelodau'r pwyllgor fynychu'n bersonol yn y lleoliad a nodir uchod neu o bell drwy'r ddolen Zoom a ddarperir ar wahân.	
Gellir gwyllo'r cyfarfod ar wefan y cyngor drwy'r ddolen canlynol:- <a href="https://carmarthenshire.public-i.tv/core/portal/home">https://carmarthenshire.public-i.tv/core/portal/home</a>	

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP  
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG

## **GRŴP PLAID CYMRU- 7 Aelod**

Cyng. Carys Jones  
Cyng. Liam Bowen  
Cyng. Kim Broom  
Cyng. Peter Hughes Griffiths  
Cyng. Betsan Jones  
Cyng. Hefin Jones  
Cyng. Jean Lewis

## **GRŴP LLAFUR -**

Cyng. Lewis Davies  
Cyng. Dot Jones  
Cyng. Edward Skinner  
Cyng. Michael Thomas

## **GRŴP ANNIBYNNOL -**

Cyng. Sue Allen

## **HEB GYSYLLTIAD**

Cyng. Sean Rees

## **AELODAU ANETHOLEDIG SYDD Â PHLEIDLAIS**

Vera Kenny

Yr Eglwys Gatholig Rufeini

Rev. Delyth Richards

Yr Eglwys yng Nghymru

## **RHIANT LYWODRAETHWYR SYDD Â PHLEIDLAIS -**

Anthony Enoch

Cynrychiolwr Rhiant Lywodraethwr:  
Ardal 2 - Caerfyrddin

Felicity Healey-Benson

Cynrychiolwr Rhiant Lywodraethwr:  
Ardal 3 - Llanelli

1 Lle Gwag

# AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.
3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)
4. POLISI AR DDYFARNU GRANTIAU A'R IAITH GYMRAEG 5 - 24
5. DIWEDDARIAD AR ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL 25 - 44
6. STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG 2023-28 45 - 76
7. GWERTHUSIAD O AROLYGIADAU ESTYN AR DRAWS YSGOLION SIR GAERFYRDDIN, UNEDAU CYFEIRIO DISGYBLION A LLEOLIADAU ARBENIGOL 77 - 86
8. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU 87 - 94
9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 MAWRTH 2023 95 - 102

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Eitem Rhif 4 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG

5 MAI 2023

## POLISI AR DDYFARNU GRANTIAU A'R IAITH GYMRAEG

**Pwrpas:** Cytuno ar y Polisi ar Ddyfarnu Grantiau a'r Iaith Gymraeg ar gyfer y Cyngor, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws cynlluniau grant a chydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg.

### Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu:-

Ystyried y Polisi ar Ddyfarnu Grantiau a'r Iaith Gymraeg a darparu adborth cyn i'r Cabinet ystyried yr adroddiad.

### Y Rhesymau:

Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg. Fel rhan o'r Safonau hynny, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi polisi dyfarnu grantiau sy'n sicrhau ein bod yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd bobl i ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant.

### YR AELOD O'R CABINET SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:-

Cynghorydd Glynog Davies a'r Cynghorydd Gareth John

<b>Y Gyfarwyddiaeth:</b> <b>Enw Pennaeth y Gwasanaeth:</b> Noelwyn Daniel <b>Awdur yr Adroddiad:</b> Myfanwy Jones	<b>Swyddi:</b>  Pennaeth TG a Pholisi  Swyddog Datblygu'r Gymraeg	<b>Rhifau ffôn/ Cyfeiriadau E-bost:</b>  <a href="mailto:NDaniel@sirgar.gov.uk">NDaniel@sirgar.gov.uk</a>  <a href="mailto:MyJones@sirgar.gov.uk">MyJones@sirgar.gov.uk</a>
--	---	---

# EXECUTIVE SUMMARY

## POLICY ON AWARDING GRANTS AND THE WELSH LANGUAGE

### 1. BRIEF SUMMARY OF PURPOSE OF REPORT.

This Policy has been prepared in order to comply with the Welsh Language Standards (The Welsh Language (Wales) Measure 2011). Carmarthenshire County Council's compliance notice states that we must 'produce and publish a policy on awarding grants' that requires us to consider the effects that awarding a grant will have on 'opportunities for persons to use Welsh', and on 'not treating Welsh less favourably than English'.

The Policy has been developed in full discussion between the Corporate Policy Team (who lead on the Welsh language standards) and Economic Development Team (who lead on grant administration).

Although there have been arrangements in place previously to ensure that grant awarded bodies comply with the Welsh Language Standards, there has not been a Policy in place, nor a formal consideration of the impact that awarding the grant would have on residents' use of Welsh.

The Policy details the Council's commitment to administering Grants in accordance with the Standards and explains the way in which the Council will pass on these duties to the applicants. The procedures detailed have been formulated in order to guide the applicants towards ensuring a positive impact of their activities on the Welsh Language. The Policy outlines the expectations that need to be applied in the grant awarding process from the initial information given to potential applicants, through to the application form and the information given to successful applicants.

There is a practical set of exemplary commitments provided in the information given to potential applicants which will guide the applicant to planning a positive impact on the Welsh Language through the administration and application of their proposed activities. These commitments will then be transferred from the application form to the information given to successful applicants. From there, the Policy explains that the commitments to the Welsh Language will be reported upon and monitored.

Finally, the Policy includes an appendix of information on support for candidates working bilingually, and a checklist for officers to ensure the correct application of the Policy in practical terms.

The Policy will align with the Council's Welsh Language Promotion Strategy 2023-28 and the Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015.

**DETAILED REPORT ATTACHED?**

**YES**

**Policy on awarding grants and the Welsh Language**

# IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:

**Signed:** Noelwyn Daniel, Head of ICT & Corporate Policy  
Jason Jones, Head of Regeneration

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>

## Policy, Crime & Disorder and Equalities

The introduction of the Policy on Awarding Grants and the Welsh Language fulfils a requirement as part of the Standards set upon the Council under the Compliance Notice received from the Welsh Language Commissioner on 30 September 2015.

## Legal

The Welsh Language Standards Regulations 2015 came into force on 31 March 2015. These Regulations replace the responsibilities placed on Carmarthenshire County Council under the Welsh Language Act 1993 and were imposed on the Authority on 31 March 2016.

## Finance

The policy introduces a new way of working amongst our key grant opportunities as a Council.

## CABINET MEMBER PORTFOLIO HOLDERS AWARE/CONSULTED

Cllr. Glynog Davies and Cllr. Gareth John

YES

## Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information List of Background Papers used in the preparation of this report:

**THESE ARE DETAILED BELOW OR THERE ARE NONE** (Delete as applicable)

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Welsh Language Standards Compliance Notice		<a href="#">Welsh Language Standards (Welsh Language (Wales) Measure 2011) Compliance Notice (gov.wales)</a>

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



# Polisi Dyfarnu Grantiau a'r iaith Gymraeg



[sirgar.llyw.cymru](http://sirgar.llyw.cymru)  
[carmarthenshire.gov.wales](http://carmarthenshire.gov.wales)

## **Cynnwys**

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>2</b>
<b>2. Cyd-destun Polisi .....</b>	<b>4</b>
<b>3. Gweinyddu Proses Grantiau yn unol â'r Safonau .....</b>	<b>6</b>
<b>4. Disgwyliadau o ran y Gymraeg i'w trosglwyddo i'r ymgeiswyr: .....</b>	<b>7</b>
- <b>Gwybodaeth i ymgeiswyr posibl</b>	
- <b>Ffurflen gais</b>	
- <b>Gwybodaeth i ymgeiswyr llwyddiannus</b>	
- <b>Aseu ceisiadau</b>	
- <b>Adrodd a monitro</b>	
<b>5. Cymorth i ymgeiswyr .....</b>	<b>13</b>
<b>6. Rhestr Wirio .....</b>	<b>14</b>

## Cyflwyniad

Mae'n ofynnol o dan [Mesur y Gymraeg \(Cymru\)2011](#) i Gyngor Sir Gâr lunio Polisi dyfarnu grantiau sy'n sicrhau bod cyrff a gaiff eu hariannu gan y Cyngor yn gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion y Cyngor parthed y Gymraeg. Mae disgwyl i'r Cyngor drosglwyddo egwyddorion sylfaenol y Safonau i'r cyrff trydydd parti hyn, sef peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflenwi gwasanaethau wrth weithredu, wrth lunio polisi ac wrth gadw cofnodion.

Ar ben hynny, mae llunio, mabwysiadu a gweithredu polisi cadarn ar ddyrannu grantiau a'r Gymraeg yn allweddol wrth i Gyngor Sir Gâr weithio i hyrwyddo'r Gymraeg yn unol â [Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2023-2028 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Bydd Cyngor Sir Gâr yn ymdrechu i sicrhau hyfywedd y Gymraeg drwy ei ddylanwad ar gyrff eraill, drwy prosesau dyrannu grantiau ar draws pob adran o'r Cyngor Sir er mwyn gweithio tuag at atal y dirywiad i [niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yn y sir](#).

Bydd y polisi hwn yn sicrhau cysondeb o ran ymdrin â'r Gymraeg ar draws amrywiol grantiau'r Cyngor, yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau wrth ddyrannu grantiau ac hefyd yn arfogi staff y Cyngor i fedru cynorthwyo cyrff trydydd parti i allu hyrwyddo'r Gymraeg yn eu gweithrediadau yn effeithiol.

Bydd y polisi yn cydweddu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cyfrannu tuag at gyrraedd nod llesiant cenedlaethol, 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' a Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Gâr. Fe fydd hefyd yn gerbyd defnyddiol ar gyfer gweithredu 'Mwy na geiriau', sef Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Iaith Gymraeg mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol . Yn ogystal fe fydd yn cyffwrdd yn anuniongyrchol ar elfennau o'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Yn olaf, fe fydd yn cyfrannu tuag at gyrraedd amcan y Llywodraeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr y Gymraeg erbyn 2050.

## Cyd-destun Polisi

### Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: Y Safonau

Mae egwyddor sylfaenol yn sail i Safonau'r Gymraeg a ddyrannwyd i Gyngor Sir Gâr yn Medi 2015, sef bod, cyfeiriadau at unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gyflawni gan gorff, neu at unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gorff, i'w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at y gweithgaredd hwnnw yn cael ei gyflawni ar ran y corff, neu at y gwasanaeth hwnnw yn cael ei ddarparu ar ran y corff, gan drydydd parti o dan drefniadau a wneir rhwng y trydydd parti a'r corff;

Ar ben hyn mae'r rheoliadau'r Safonau'n nodi mai cyfrifoldeb y corff sy'n ddarostyngedig i'r Safonau yw sicrhau bod y trydydd parti yn gweithredu yn unol â'r Safonau. I'r perwyl hwn, mae'r Safonau'n nodi'n benodol fod yn rhaid i'r corff ystyried effaith dyfarnu grantiau ar y Gymraeg fel hyn:

#### Safon 94

Rhaid ichi lunio a chyhoeddi **polisi dyfarnu grantiau** (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant –

- (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheiny'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- (c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- (ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Wrth weithredu prosesau grant, mae'r Cyngor wrth reswm yn ddarostyngedig i holl Safonau Cyflenwi Gwasanaeth y Cyngor yn ymwneud â chyfathrebu, ond yn ogystal, rhaid sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda Safonau 71-75 sy'n ymdrin a phrosesau grant yn benodol:

71 Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.

72 Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

72A Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).

74 Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

75 Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.

## **Gweinyddu Proses Grantiau yn unol â'r Safonau**

### **Codi ymwybyddiaeth o gronfa ariannol neu grant**

Wrth hyrwyddo cronfa grantiau newydd, neu wrth godi ymwybyddiaeth o ddyddiadau terfyn newydd neu rowndiau newydd o gyllido drwy grant, byddwn yn sicrhau ein bod yn hyrwyddo yn Gymraeg, a hynny i'r un safon a'r un pryd ag yn Saesneg. Ym mhob sianel gyfathrebu, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, bydd hysbyseb Gymraeg yn cael ei ryddhau yr un pryd ag un Saesneg. Yn yr un modd, wrth gyfathrebu drwy e-bost neu lythyr torfol, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Wrth hysbysebu am geisiadau, byddwn yn nodi ein bod yn croesawi ceisiadau Cymraeg ac y bydd rhai Cymraeg yn cael ei trin yn union yr un â cheisiadau Saesneg, fel hyn: [Caniateir cyflwyno ffurflen gais yn Gymraeg ac ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.](#)

### **Gweinyddu'r broses: Gwaith papur**

Byddwn yn cynnig gwaith papur sy'n gysylltiedig â phroses grantiau yn Gymraeg i bob corff ar y cyswllt cyntaf, a hynny er mwyn annog pobl i ymgeisio trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn sicrhau bod manylion grant, ffurflenni cais ac unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gael yn Gymraeg a bydd datganiad ar y gwaith papur Saesneg i nodi 'Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd'. Yn dilyn y cyswllt cyntaf, byddwn yn sefydlu dewis iaith y sefydliadau a sicrhau eich bod yn darparu popeth yn Gymraeg iddynt oni bai ein bod yn gwybod nad yw'n dymuno derbyn fersiwn Gymraeg.

### **Gweinyddu'r broses: cyfathrebu**

Byddwn yn cyfathrebu'n ddwyieithog ar y cyswllt cyntaf gyda phob sefydliad. Yn dilyn y cyswllt cyntaf, byddwn yn cynnig cyfathrebu yn Gymraeg ar bob cyfle wrth drafod ar lafar gyda staff neu wirfoddolwyr y sefydliadau. Byddwn yn cyfathrebu'n ysgrifenedig yn ddwyieithog, oni bai ein bod yn gwybod nad ydynt yn dymuno cyfathrebu'n Gymraeg. Bydd y frawddeg hon wedi ei gynnwys ar bob e-bost neu lythyr 'Mae Croeso i chi gyfathrebu gyda ni yn Gymraeg'.

Wrth gyfathrebu gyda sefydliadau, byddwn yn esbonio cyd-destun y polisi yma a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt o ran y Gymraeg wrth ymgeisio am unrhyw grantiau. Gallwn gyfeirio darpar ymgeiswyr at y cyrff a'r adnoddau a nodir ar dudalen 13 a theilwra y gefnogaeth yn unol â sefyllfa ymgeiswyr.

### **Gweinyddu'r Broses: asesu a monitro**

Byddwn yn cynnig cyfweiliad cyfrwng Cymraeg os oes cyfweiliad i fod, a chynnal cyfweiliad Cymraeg gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os nad oes modd ei gynnal gyda phanel Gymraeg. Byddwn yn darparu penderfyniad yn Gymraeg ar bapur neu ar lafar oni bai ein bod yn gwybod nad yw'r sefydliad a geisiodd am grant yn dymuno hynny. Byddwn yn trefnu ymweliadau monitro yn Gymraeg os oes ymweliadau'n rhan o'r gorchwyl, oni bai ein bod yn gwybod nad yw'r sefydliad yn dymuno hynny.

## **Disgwyliadau o ran y Gymraeg i'w trosglwyddo i'r ymgeiswyr.**

Bydd Cyngor Sir Gâr yn trosglwyddo amodau Safonau'r Gymraeg i'r cyrff sy'n ymgeisio drwy sicrhau eu bod yn :

- Gweinyddu
- Cynllunio Gwasanaethau
- Darparu Gwasanaethau

mewn modd sy'n trin y Gymraeg mor ffafriol â'r Saesneg.

- Sicrhau eu bod yn ysgogi effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio Cymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn Sir Gaerfyrddin.
  - Byddwn yn darparu awgrymiadau ar sut i gyflawni'r uchod yn y dogfennau a roddir i ymgeiswyr posibl,
  - Byddwn yn gofyn am ymrwymadau i gyflawni'r uchod ar y ffurflen gais,
  - Byddwn yn trosglwyddo'r ymrwymadau a gytunwyd i'r ymgeiswyr llwyddiannus yn y 'Llythyr cynnig grant' neu 'Telerau ac amodau'.

**\*Mae'r geiriad i'w gynnwys yn y gwaith papur i ymgeiswyr mewn glas.**

## Gwybodaeth i ymgeiswyr posibl

Yn y ddogfennaeth y byddwn yn darparu i ymgeiswyr cyn iddyn nhw gyflwyno cais am grant, byddwn yn nodi:

Mae [Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg](#) yn gosod gofyniad statudol ar y Cyngor i sicrhau bod y grantiau a ddyfernir ganddo yn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

Er mwyn bodloni'r gofynion yma rhaid i chi wneud pob ymdrech i wneud yr isod:

- Gweithredu'n ddwyieithog yn weledol gan roi statws uchel i'r Gymraeg ar bob cyfle (deunyddiau hyrwyddo, postïadau, datganiadau i'r wasg)
- Cyfathrebu'n ddwyieithog gyda'r cyhoedd yn gyffredinol (e-byst, datganiadau i'r wasg, llythyrau galwadau ffôn)
- Cydweithio gyda phartneriaid sy'n hyrwyddo'r Gymraeg (Mentrau, Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Ysgolion Cymraeg, Cymraeg i oedolion, capeli, corau, papurau bro, fforymau a rhwydweithiau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg)
- Sicrhau bod gweithlu gyda sgiliau Cymraeg, neu drefniadau eraill yn eu lle, fydd yn galluogi gweithredu yn unol â'r Safonau
- Darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb neu ar lein yn Gymraeg
- Dangos ystyriaeth o natur ieithyddol yr ardal ddaearyddol y bwriedir gwasanaethu, ac o sut y mae'r gwaith yn mynd i gael effaith cadarnhaol ar nifer siaradwyr neu ddefnydd y Gymraeg\*.

\*Golyga hyn fod gan yr ymgeisydd ddealltwriaeth o'r cymunedau o siaradwyr Cymraeg a allai gael eu effeithio gan y ddarpariaeth; yn gadarnhaol neu'n negyddol. Mae angen bod yn effro i bob cyfle i gynyddu gwelededd y Gymraeg a hybu defnydd pawb o'r Gymraeg; yn siaradwyr hyderus neu rhai sydd â dim ond ychydig o Gymraeg.

**Enghreifftiau o ddarpariaeth yn unol â'r Safonau:** Mae'r rhain yn enghreifftiau o ymrwymïadau y gall yr ymgeisydd eu gwneud er mwyn darparu yn unol â'r Safonau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ond yn hytrach mae'n cynnig awgrymiadau, a gallai'r ymgeisydd awgrymu ymrwymïadau eraill. Bydd disgwyl iddynt ystyried perthnasedd yr isod i'r gwaith y maent am ei gyflawni trwy'r grant ac ymrwymo i gymaint â phosibl yn unol â maint trosiant y sefydliad, a maint y cais am gyllid. Sylwch fodd bynnag y bydd disgwyl i unrhyw sefydliad sy'n cyflogi mwy na 50 aelod wneud ymrwymïad sylweddol i'r Gymraeg, gan gyflawni'r hyn sydd yn y rhestr isod. Fe ystyrir pob sefyllfa yn unigol a bydd cyngor a chymorth ar gael i bob ymgeisydd.



## 1. Y sefydliad

Byddwn yn mapio capasiti presennol y sefydliad i ddarparu yn Gymraeg
Byddwn yn ymdrechu i gynyddu capasiti'r sefydliad i ddarparu'n Gymraeg naill ai drwy gyflogi staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg, drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr sydd â sgiliau Gymraeg neu drwy weithio mewn partneriaeth gyda sefydliad arall sy'n medru darparu'n Gymraeg
Byddwn yn rhoi gofyniad ieithyddol digonol ar unrhyw swyddi newydd gaiff eu creu o'r grant
Byddwn yn sicrhau fod gyda ni drefniadau mewn lle i ddarparu deunyddiau yn Gymraeg
Byddwn yn ystyried darpariaeth Gymraeg o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio'r ddarpariaeth
Mae gyda ni Bolisi neu Gynllun Iaith Gymraeg sy'n amlinellu ein hymrwymiad ymarferol i'r Gymraeg / Rydyn ni'n gweithio gyda Comisiynydd ar y <a href="http://comisiynyddygyymraeg.cymru">Cynnig Cymraeg (comisiynyddygyymraeg.cymru)</a>
Rydyn ni'n sefydliad Cymraeg sy'n gweinyddu, gweithredu a darparu drwy gyfrwng y Gymraeg

## 2. Ymwneud gyda'r cyhoedd neu gwsmeriaid

Byddwn yn cyfathrebu negeseuon cyffredinol gyda'r cyhoedd yn ddwyieithog
Byddwn yn cynnig cyfathrebu yn Gymraeg gydag unigolion ac yn cyfathrebu gyda nhw yn yr iaith y maen nhw'n dymuno
Byddwn yn darparu ein gweithgaredd yn Gymraeg
Byddwn yn darparu ein gweithgaredd yn ddwyieithog gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei drin mor ffafriol â'r Saesneg
Os nad oes modd darparu elfen o'r weithgaredd yn Gymraeg o achos diffyg personél, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg, gan ddefnyddio hwyluswyr Cymraeg neu gyfieithu ar y pryd er enghraifft, neu drwy weithio mewn partneriaeth gyda sefydliad arall
Byddwn yn hyrwyddo elfennau Cymraeg ein darpariaeth

### 3. Sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg

Mae gennym ddealltwriaeth o sefyllfa ieithyddol y sir ac rydym yn deall yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg
Byddwn yn cynnig darpariaeth Gymraeg yn hytrach nac aros i rhywun ofyn amdano
Byddwn yn ymgysylltu gyda chymunedau Cymraeg eu hiaith (daearyddol neu beidio)
Byddwn yn sicrhau nad ydy ein darpariaeth yn cael effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg yn gyffredinol yn y sir, gan gynnwys sicrhau nad ydy ein darpariaeth yn annog siaradwyr Cymraeg i ymwneud â'i gilydd yn Saesneg o achos ein darpariaeth
Byddwn yn sicrhau defnydd o'r Gymraeg yn ein holl ddarpariaeth gan gynnwys gan rhai sy'n llai rhugl
Bydd ein gweithgaredd yn darparu cyfle i bobl defnyddio'u Cymraeg neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg
Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid sy'n hyrwyddo'r Gymraeg (Mentrau, Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Ysgolion Cymraeg, Cymraeg i oedolion, capeli, corau, papurau bro, fforymau a rhwydweithiau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg)

### 4. Cyhoeddusrwydd

Byddwn yn cyhoeddi holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn Gymraeg , yn electroneg ac ar bapur. Byddwn yn sicrhau bod y deunyddiau hyrwyddo Cymraeg yn mynd allan yr un pryd â'r Saesneg, i'r un safon a bydd y Gymraeg yn cael ei gynnwys yn y man lle bydd yn cael ei ddarllen yn gyntaf
Byddwn yn Marchnata i gynulleidfa Gymraeg ei iaith gan nodi'n glir bod darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog ar gael.
Byddwn yn annog siaradwyr Cymraeg i ymwneud gyda fy mhrosiect yn Gymraeg
Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg yn fy holl weithgaredd
Bydd ein siaradwyr Cymraeg yn gwisgo bathodynau iaith gwaith ac yn annog pobl i siarad Cymraeg
Byddwn yn creu a chynnal hunaniaeth Gymreig i fy narpariaeth.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr nodi eu hymrwymiaadau i'r Gymraeg wrth iddynt ateb y cwestiynau am y Gymraeg ar y ffurflen gais ac, wedi iddynt gael eu cytuno gyda'r swyddog grant, fe fyddant yn cael eu gosod fel amodau a thelerau i'r ymgeisydd llwyddiannus.

### **Ffurflen gais**

Bydd ein Ffurflen Gais i ymgeiswyr yn nodi:

- Caniateir cyflwyno ffurflen gais yn Gymraeg ac ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.
- Mae Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg yn gosod gofyniad statudol ar y Cyngor i sicrhau bod y grantiau a ddyfernir ganddo yn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

Byddwn yn cynnwys y canlynol, yn gwestiynau gorfodol, ar bob ffurflen gais, er mwyn sicrhau bod y Cyngor a'r corff sy'n cael ei gyllido yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

**1a.** Sut ydych chi'n mynd i sicrhau eich bod chi ac unrhyw drydydd parti neu bartner yn gwneud pob dim posibl i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gydradd â'r Saesneg wrth gynllunio a gweinyddu'r prosiect?

(Gallwch gynnwys awgrymiadau o flychau 1 a 2 yn y ddogfen sy'n rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr posib)

**1b.** Pa dystiolaeth sydd gennych i brofi hyn?

**2a.** Sut ydych chi'n mynd i sicrhau bod eich gwaith chi a gwaith unrhyw drydydd parti neu bartner yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

(Gallwch gynnwys awgrymiadau o flwch 3 yn y ddogfen sy'n rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr posib)

**2b.** Pa dystiolaeth sydd gennych i brofi hyn?

**3.** Sut byddwch chi ac unrhyw drydydd parti neu bartner yn hyrwyddo eich darpariaeth cyfrwng Cymraeg i gymunedau'r sir?

(Gallwch gynnwys awgrymiadau o flwch 4 yn y ddogfen sy'n rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr posib).

### **Gwybodaeth i Ymgeiswyr Llwyddiannus**

Wrth gynnig grant i ymgeiswyr llwyddiannus, byddwn yn cynnwys y canlynol fel rhan o'r telerau ac amodau.

Mae'r grant yma'n cael ei ddyfarnu'n unol â gofynion ein Polisi ar Ddyfarnu Grantiau, a gyhoeddwyd i sicrhau cydymffurfiaid â Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Disgwylir i unrhyw brosiectau neu sefydliadau llwyddiannus gydymffurfio â dogfen ganllawiau a ddarperir i ymgeiswyr posib.

Dylid gwirio'r rhestr o enghreifftiau yn y 'Gwybodaeth i ymgeiswyr posibl' i benderfynu ydy'r sefydliad wedi ymrwmo i amodau synhwyrol parthed y Gymraeg yn y ffurflen gais. Dylid trafod gyda'r sefydliad os oes angen ychwanegu ymrwymadau. (Gellir gwirio gyda'r Tîm Polisi a Chynnwys pe dymunir). Dylid trosglwyddo'r datganiadau a ymrwymwyd iddynt o'r ffurflen gais i'r 'llythyr cynnig grant' neu'r 'telerau ac amodau'.

Dylid cysylltu gyda'r Tîm Polisi a Chynnwys ar [iaithgymraeg@sirgar.gov.uk](mailto:iaithgymraeg@sirgar.gov.uk) i gael cymorth i gytuno ar ymrwymadau ar y Gymraeg.

### **Asesu ceisiadau**

Byddwn yn ystyried a ydy'r corff wedi ymrwmo i amodau synhwyrol parthed y Gymraeg yn y ffurflen gais. Dylid trafod gyda'r sefydliad os oes angen ychwanegu ymrwymadau. (Gellir gwirio gyda'r Tîm Polisi a Chynnwys pe dymunir).

### **Adrodd a monitro**

Dylid gofyn i'r sefydliad am dystiolaeth o gyflawniad yr amodau hyn yn yr Adroddiad Monitro Cynnydd (Progress monitoring report) ac ar ddiwedd y prosiect.

Dylid gwirio cyflawniad yr amodau hyn mewn ymweliadau monitro os bydd ymweliadau yn rhan o'r broses.

## Cymorth i ymgeiswyr: dolenni defnyddiol

I fusnesau – [Cymraeg mewn Busnes](#), [Helo Blod](#), [Comisiynydd y Gymraeg](#), [Llwybrau Celtaidd](#), [Cynnig Cymraeg](#)

I'r trydydd sector – [Y Mentrau Iaith](#), [Croeso i'r Gymraeg](#), [fidio hyfforddi'n ddwyieithog](#), [Comisiynydd y Gymraeg](#), [Cynnig Cymraeg](#) ([comisiynyddygyymraeg.cymru](#))

Sector gofal plant ac addysg – [Caneuon a rhigymau](#), [Gwaith Cartref](#). [Dim Problem](#). [Bod yn Ddwyieithog](#), [apiau i blant](#), [Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Gaerfyrddin](#)

Dyddiau hyrwyddo'r Gymraeg:

- [Dydd Miwsig Cymru](#),
- [Mae gen i Hawl](#)
- [Diwrnod Shwmae](#),
- [Dydd Gŵyl Dewi](#),
- [Santes Dwynwen](#).
- [Wythnos Dysgu Cymraeg](#).

## Rhestr Wirio

### Gwaith marchnata

Ydych chi wedi sicrhau bod y canlynol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, y ddau fersiwn yn cael yr un sylw, a bod y ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd.

Hysbysebion am y gronfa/rhaglen grant	
Postiadau am y gronfa yn y cyfryngau cymdeithasol	
E-byst cyffredinol / gwahoddiad am geisiadau grant	
Ffurflenni cais	
Cyngor neu ganllawiau i ymgeiswyr posibl	
Amodau grant neu lythyr cynnig	
Gwaith papur ar gyfer adrodd ar dargedau	
Ydych chi wedi sicrhau eich bod yn nodi'r frawddeg hon ar y ffurflen gais ac unrhyw wybodaeth a ddarperir cyn i ymgeiswyr gyflwyno cais, 'Caniateir cyflwyno ffurflen gais yn Gymraeg ac ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.'	

### Delio ag ymgeiswyr

Os ydych yn cynnig y canlynol, ydych chi wedi sicrhau eich bod eu cynnig yn Gymraeg i bob ymgeisydd ac yn cael ei ddarparu'n Gymraeg os oes galw am hynny?

Cyngor cychwynnol	
Cyfweliad	
Sylwadau neu wybodaeth ar gais	
Gwaith papur yn ymwneud â cheisio am grant	
Gwaith papur ar gyfer adrodd ar grant	
Gwaith papur ar gyfer penderfyniad ar grant	

Ydych chi wedi sicrhau bod pob ymgeisydd yn deall gofynion y gronfa ynglŷn â

Gweithredu'n Gymraeg wrth ddarparu'r prosiect	
Hyrwyddo'r Gymraeg wrth ddarparu'r prosiect	
Ymwneud gyda'r cyhoedd neu gwsmeriaid yn Gymraeg	
Sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg	
Darparu tystiolaeth o weithredu'n Gymraeg	
Darparu tystiolaeth o hyrwyddo'r Gymraeg	
Darparu tystiolaeth o ymwneud gyda'r cyhoedd neu gwsmeriaid yn Gymraeg	
Darparu tystiolaeth o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg	
Y cymorth sydd ar gael i weithredu a darparu yn Gymraeg (gw. dolenni defnyddiol)	

### Asesu ceisiadau

Ydych chi wedi gwirio bod yr ymrwymadau Cymraeg yn y ffurflen gais yn ddigonol	
Ydych chi wedi ymgynghori gyda'r Tîm Polisi a Chynnwys os ydych yn ansicr	

Ydych chi wedi trosglwyddo'r ymrwymiadau hynny i'r 'telerau ac amodau' neu 'llythyr cynnig grant' os yn dyfarnu grant	
---	--

**Monitro'r ddarpariaeth**

Ydych chi wedi cael tystiolaeth foddhaol o gyflawni ymrwymiadau o ran y Gymraeg?	
--	--

Ydych chi wedi ymgynghori gyda'r Tîm Polisi a Chynnwys os ydych yn ansicr	
---	--

Os ydych chi'n cynnig ymweliad monitro, ydych chi wedi cynnig ymweliad cyfrwng Cymraeg?	
---	--

MAE'R DUDALEN HON YN WAG YN FWRIADOL



Eitem Rhif 5

**Y PWYLLGOR CRAFFU PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG,  
POBL IFANC A'R GYMRAEG**

**05 MAI 2023**

**DIWEDDARIAD AR ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

**Y Pwrpas:**

Ar gais y Pwyllgor Craffu mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth o ran y cynnydd a wnaed wrth weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r meysydd ymarfer gorau gyda disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu:-**

I adolygu ac asesu'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad a darparu unrhyw argymhellion, sylwadau, neu gyngor i'r Aelod Cabinet a/neu'r Cyfarwyddwr cyn i'r Cabinet ystyried yr adroddiad.

**Y Rhesymau:**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth o ran y cynnydd a wnaed wrth weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r meysydd arfer dda ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Yr Aelod O'r Cabinet Sy'n Gyfrifol Am Y Portffolio:- Y Cyng. Glynog Davies - Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg**

<b>Y Gyfarwyddiaeth:</b> <b>Addysg a Phlant</b> <b>Enw Pennaeth y Gwasanaeth:</b> Aneirin Thomas  <b>Awdur yr Adroddiad:</b> Elinor Williams / Rebecca Williams	<b>Swyddi:</b>  Pennaeth Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr  Rheolwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol	<b>Cyfeiriadau E-bost:</b>  <a href="mailto:ARThomas@sirgar.gov.uk">ARThomas@sirgar.gov.uk</a>  <a href="mailto:rawilliams@sirgar.gov.uk">rawilliams@sirgar.gov.uk</a> <a href="mailto:ERWilliams@sirgar.gov.uk">ERWilliams@sirgar.gov.uk</a>
---	---	--

# EXECUTIVE SUMMARY

## ADDITIONAL LEARNING NEEDS UPDATE

### SUMMARY OF PURPOSE OF REPORT

This report provides an evaluation on-

- the progress of transition from Statements of Educational Needs to Additional Learning Needs
- an update on how additional educational needs are categorised and
- feedback on the level of success, to include overview of the areas working well and those that need addressing and statistics (how many are in classrooms and how many are needing unit support).

**DETAILED REPORT ATTACHED ?**

**YES**

# IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: Aneirin Thomas

Head of Education and Inclusion

Policy, Crime & Disorder and Equalities <b>NONE</b>	Legal <b>YES</b>	Finance <b>YES</b>	ICT <b>NONE</b>	Risk Management Issues <b>YES</b>	Staffing Implications <b>YES</b>	Physical Assets <b>NONE</b>
--	---------------------	-----------------------	--------------------	--------------------------------------	-------------------------------------	--------------------------------

## Legal

We are required to implement the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act which is the new statutory framework for supporting children and young people with Additional Learning Needs (ALN). This replaces existing legislation surrounding Special Educational Needs (SEN) and the assessment of children and young people with learning difficulties and/or disabilities (LDD) in Post-16 education and training. The Act also continues the existence of the Special Educational Needs Tribunal for Wales, which provides for children, their parents and young people to appeal against decisions made by the Local Authority in relation to their or their child's ALN but renames it the Education Tribunal for Wales.

## Finance

As noted in the report, developing suitable provision to meet the needs of learners is placing additional pressure on both Local Authority and school budgets. We are committed to ensuring inclusion and continue to invest in local provision. The local authority and schools have had to set up additional resource bases and employ additional staff to meet the needs of learners. Demand has risen post-Covid however the service is doing all it can to manage demand and ensure suitable provision is in place.

## Risk Management Issues

There are risks associated in failing to meet the needs of learners and learners/parents/carers have recourse to the Education Tribunal for Wales to address their concerns. We continue to develop local provision and supporting in meeting the diverse needs of our learners.

## Staffing Implications

There is a comprehensive training programme to ensure that our staff are well equipped to support learners with a range of ALN and ensuring our commitment to inclusion and meeting the needs of our learners, whenever possible, in Carmarthenshire.

**CABINET MEMBER PORTFOLIO HOLDER(S)  
AWARE/CONSULTED- YES**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information  
List of Background Papers used in the preparation of this report:**

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act	<b>Online</b>	<a href="#">Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act   GOV.WALES</a>

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Diweddariad ar Anghenion Dysgu Ychwanegol **Additional Learning Needs Update**

**Mai / May 2023**



sirgar.llyw.cymru  
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr  
Carmarthenshire  
County Council



<b>ALN</b>	<b>Additional Learning Needs</b>	<i>Refers to the learning difficulties or disabilities experienced by children and young people that make it more challenging for them to learn than their peers.</i>
<b>ALNET</b>	<b>Additional Learning needs and Educational Tribunal (Wales) Act 2018</b>	<i>The Act was introduced to make provision for a new statutory framework for supporting children and young people with additional learning needs, create an integrated, collaborative process of assessment, planning and monitoring which facilitates early, timely and effective interventions.</i>
<b>IDP</b>	<b>Individual Development Plan</b>	<i>A personalised plan developed for a child or young person with additional learning needs, outlining the support they require to succeed in their education.</i>
<b>SEN</b>	<b>Special Education Needs</b>	<i>SEN refers to the learning difficulties or disabilities experienced by children and young people that make it more challenging for them to learn than their peers.</i>
<b>CYP</b>	<b>Children and Young People</b>	<i>Refers to children under the age of 16 or, young people, 16 – 25</i>
<b>LA</b>	<b>Local Authority</b>	<i>Local councils, which is the most common type of local authority, are made up of councillors who are elected by the public in local elections. Councillors work with local people and partners, such as local businesses and other organisations, to agree and deliver on local priorities.</i>
<b>DesCo</b>	<b>Designated Coordinator</b>	<i>Designated staff member to coordinate the transition of children and young people with SEN to the ALN system.</i>
<b>ALNCo</b>	<b>Additional Needs Coordinator</b>	<i>A designated school staff member responsible for coordinating the support for children and young people with ALN.</i>
<b>EHE</b>	<b>Electively Home Educated</b>	<i>A form of education in which children are educated at home by their parents/tutors rather than attending a school setting.</i>
<b>FEI</b>	<b>Further Education Institutions</b>	<i>A post-secondary educational institution that offers vocational, technical, or academic courses to students.</i>
<b>ISPI</b>	<b>Independent special post-16 institution</b>	<i>Special post-16 institutions which are legally established to provide education and are not maintained schools or FE colleges, which provide specialist post-16 education and support to young people with some of the most severe learning difficulties or disabilities or low incidence needs.</i>
<b>EOTAS</b>	<b>Educated Otherwise than at School</b>	<i>EOTAS means the education or provision for children or young people outside of a formal educational setting.</i>
<b>OoC</b>	<b>Out of County</b>	<i>Refers to learners who attend schools or educational settings outside their home county (Carmarthenshire).</i>
<b>WG</b>	<b>Welsh Government</b>	<i>The Welsh Government is the devolved government of Wales.</i>
<b>EY ALNLC</b>	<b>Early Years ALN Lead Officer</b>	<i>This Lead Officer has responsibility for co-ordinating the local authority's functions under the ALN Act in relation to children under compulsory school age.</i>
<b>PCP</b>	<b>Person Centred Planning</b>	<i>Person centred care refers to a process that is people focused, promotes independence and autonomy, provides choice and control and is based on a collaborative team philosophy. It takes into account people's needs and views and builds relationships with family members.</i>

<b>ESTYN</b>	<b>Inspectorate of education and training in Wales</b>	<i>Estyn is the Office of His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales. As a Crown body, Estyn is independent of the Welsh Government. Estyn's principal aim is to raise the standards and quality education and training in Wales.</i>
<b>SA</b>	<b>School Action</b>	<i>A child should get more intensive help called School Action if they are making little or no progress with the help normally available in class</i>
<b>SA+</b>	<b>School Action +</b>	<i>This is an increased level of support for pupils who need more help than they can receive on School Action.</i>
<b>ULP</b>	<b>universal learning provision</b>	<i>The universal provision is provision that is available to all children and is available across settings and schools.</i>
<b>TC</b>	<b>Teacher Centre</b>	<i>School Management of Information System</i>
<b>DECLOs</b>	<b>Designated Educational Clinical Lead Officers</b>	<i>The DECLO has responsibility for co-ordinating the health board's functions in relation to children and young people who have additional learning needs</i>
<b>ASD</b>	<b>Autistic Spectrum Disorder</b>	<i>ASD refers to a broad range of conditions characterized by challenges with social skills, repetitive behaviours, speech and nonverbal communication</i>
<b>PEP</b>	<b>Personal Education Plan</b>	<i>A personalised plan developed for looked-after children, outlining the support they require to succeed in their education.</i>
	<b>Specialist Settings</b>	<i>Educational settings that cater specifically to the needs of children and young people with additional learning needs or disabilities.</i>

The purpose of the report is to provide the Committee with information pertaining to the progress and the areas of best practice with pupils with Additional Learning Needs (ALN).

The report provides:

1. An evaluation of the progress of transition from Statements of Special Education Needs (SEN) to Individual Development Plans (IDPs) for pupils with ALN.
2. An update on how ALN is categorised.
3. Feedback on the level of success of the transition into the new system, which will include an overview of the areas that are working well and those that need addressing.
4. Statistical data on pupils with ALN in mainstream schools and those requiring specialist setting support.

## **Introduction**

Through the Additional Learning needs and Educational Tribunal (Wales) Act 2018, the Welsh Government is transforming the expectations, experiences and outcomes for children and young people with Additional Learning Needs.

The Act introduces a new statutory framework for supporting children and young people (CYP) with ALN. This, alongside a mandatory code, makes sure that the new ALN system has a set of clear, legally enforceable parameters within which local authorities, schools and other partners responsible for the delivery of services to children and young people with ALN must act. The new system sets out to:

- Simplify the system with a unified legislative framework for all children and young people with ALN, regardless of their level of need.
- Ensure that all learners with ALN are supported to overcome barriers to learning and achieve their full potential.
- Improve the planning and delivery of support for learners, placing learners' needs, views, wishes and feelings at the heart of the process.
- Focus on the importance of identifying needs early and putting in place timely and effective interventions which are monitored and adapted to ensure they deliver the desired outcomes.

Implementation of the 2018 Act commenced on 1 September 2021 with the ALN system being phased in over a period of 3 years up until August 2024. An additional year in order to transfer statements to IDPs has been agreed by Welsh Government, taking conclusion of transfer into the new system up to August 2025.

## **An evaluation of the progress of transition from Statements of SEN to Individual Development Plans for pupils with ALN.**

Children with Statements of SEN are being gradually transitioned to the new ALN system, starting from 1st September 2022. This phased transfer is taking place over three years as follows:

### **School year 2022 to 2023:**

- Nursery, Years 1 and 2, Reception, Year 6, Year 10 and Year 11

### **School year 2023 to 2025:**

- 2023/24: Year 2, 3, 4, 5, 6, 8, 9 and 10.
- 2024/25: any child or young person who didn't transition during 2023/2024 from those mandated year groups and will now be in the following year groups- Year 3, 4, 5, 6, 7, 9, 10 and 11.

It is important to note that the Minister for Education and Welsh Language has recently extended the ALN Act's implementation period from three to four years. This extension implies that children initially scheduled to move to the ALN system between September 2023 and August 2024 will now transition between September 2023 and August 2025.



To move children and young people in this group from the SEN system to the ALN system, the Local Authority (LA) is asking schools to issue an 'IDP notice' or 'No IDP notice' for each child and young person with a statement. Until this happens, the local authority remains under a duty to maintain the statement of SEN and arrange the Special Educational Provision set out in the statement of SEN.

Yn yr un modd, mae graddau llwyddiant y Strategaeth hon yn ddibynnol ar ymrwymiad cyrff cyhoeddus eraill sydd y tu allan i reolaeth perchennog y Strategaeth, sef y Cyngor Sir. Erys gwaith i'w wneud i sicrhau bod cyrff eraill y Fforwm Strategol Sirol yn ymrwymo i weithredu'r Strategaeth, a hynny ar bob lefel o fewn y sefydliadau. Mae angen integreiddio nod y Strategaeth hon i waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sicrhau bod yna gefnogaeth lwyr o'r sefydliadau hynny i'w cynrychiolwyr sydd ar y Fforwm Strategol Sirol er mwyn sicrhau perchnogaeth y Strategaeth ar draws sefydliadau'r sir yn hytrach na dim ond i elfen gyfyngedig Gymraeg y sefydliadau hynny. Rhaid cofio 'Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb' a'n nod ni yw i 'adfer y Gymraeg yn iaith a siaredir ac a ddefnyddir gan fwyafrif ein trigolion yn gyson, ac ym mhob agwedd o fywyd'. Nid ar chwarae bach mae cyflawni'r nod.

## Cyflwyniad: Cyd-destun ieithyddol

Wrth lunio'r Strategaeth hon, rydyn ni newydd gael canlyniadau cychwynnol Cyfrifiad 2021. Mae nifer a chanran siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin wedi disgyn unwaith yn rhagor. Rydyn ni wedi colli 6,000 o siaradwyr Cymraeg, sy'n gyfystyr â 4 pwynt canran. Mae'r nifer sy'n ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg bellach yn 72,800 sy'n golygu fod y Sir wedi colli ei safle o fod yr awdurdod lleol gyda'r mwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Bellach, mae Gwynedd wedi cymryd y fantell honno.

Er bod Sir Gaerfyrddin wedi gweld y cwmp mwyaf mewn canran o siaradwyr Cymraeg o gymharu a siroedd eraill Cymru, a hynny unwaith yn rhagor, mae'r gostyngiad mewn canran yn llai o ostyngiad nac yn y Cyfrifiad diwethaf. Mae'r trai wedi arafu ac mae hynny'n galonogol, ond does dim amheuaeth bod angen gweithredu'n fwy egniol fyth os ydyn ni am ddal ein gafael o fewn y Sir ar ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng naturiol ein hymwneud â'n gilydd.

### Canran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl ACEHI, 2021 Percentage of people aged three or older able to speak Welsh, by LSOA, 2021



Ffynhonnell: Cyfrifiad o'r boblogaeth 2021  
Source: Census of population 2021


Mae'r canlyniadau cychwynnol yn nodi o'r 112 o ardaloedd bach yn Sir Gaerfyrddin, roedd y ganran o bobl tair oed neu'n hŷn a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn amrywio o 62.2% (ardal o amgylch Brynaman) i 15.0% (ardal cyfagos i Llanelli). Ar yr olwg gyntaf, mae rhai wardiau wedi gweld cynnydd bychan yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac fe fydd yn ddadlennol dadansoddi achosion y twf hwnnw mewn ardaloedd fel Gorslas. Ond mae'n wir i ddweud hefyd fod y lleihad mwyaf yn yr ardaloedd hynny sy'n gartref naturiol traddodiadol i'r Gymraeg, lle mae dwysedd y boblogaeth yn draddodiadol yn siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd fel Dyffryn Aman. Mae'r Gymraeg yn dal i fod yn gryf yn yr ardaloedd yma, ond mae'n colli tir yn gyflym. Fe fydd dadansoddi'r rhesymau y tu ôl i'r dirywiad yma'n hanfodol ar gyfer gweithredu Strategaeth Hybu effeithiol ar gyfer y Sir. Bydd adnabod y tueddiadau



trosglwyddo iaith a symudoledd poblogaeth, er enghraifft, yn gymorth i ni fedru adnabod pa gamau a fyddai'n arwain at newid arferion yn yr ardaloedd daearyddol yma.

O gymharu â'r sefyllfa ar draws Cymru, mae canlyniadau cychwynnol y Cyfrifiad yn awgrymu nad ydy'r casgliadau cychwynnol mor berthnasol i sefyllfa Sir Gâr. Nid yw'r lleihad sylweddol mewn nifer y plant ieuengaf sy'n medru siarad Cymraeg, sy'n cael ei briodoli i raddau helaeth i gyfnod COVID-19 pan oedd methrinfeydd ac ysgolion ar gau, wedi digwydd yn Sir Gâr. Mae'r lleihad yn ein niferoedd ni wedi amlygu ei hun yn yr oed 45+ ac mae'r ganran wedi gostwng fwyaf yn yr oed 50 hyd at 80 oed. Eto, bydd dadansoddiad pellach o symudoledd poblogaeth yn taflunio goleuni arwyddocaol ar y newid hwn.

Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oed, 2011 a 2021



Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer y Strategaeth hwn wedi cael ei gwblhau cyn i ganlyniadau'r Cyfrifiad gael eu cyhoeddi. Ac mae'n dderbyniol fod y gwaith o gynllunio wedi ei selio ar adroddiad y Strategaeth diwethaf, gyda'r manylder ystadegol ac ansoddol sydd ynddo, yn hytrach na ffigurau moel y cyfrifiad. Mae yna gyfyngiadau i ddefnyddioldeb ffigurau'r Cyfrifiad gan ystyried effeithiau cyfrifo yn ystod cyfnodau clo COVID-19 a'r gwahaniaeth arwyddocaol sydd rhwng y ffigurau a ffigurau arolygon eraill megis cyfrifiad blynyddol y boblogaeth. Wedi dweud hynny, fe fydd yna sylw yn cael ei roi yn Strategaeth 2, i ddadansoddi'r ffigurau pan fyddant ar gael yn eu cyfanrwydd ac i gynllunio rhai blaenoriaethau o ganlyniad.

Mae Ystadegau Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhoi darlun dra gwahanol i ni. Yn Mehefin 2011, cofnodir 82,300 (47.2%) o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, sy'n gosod y Sir yn ail i Wynedd o ran nifer. Yn ôl yr un ffynhonnell, ceir 94,000 o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr yn Mehefin 2021, (52.5%), sy'n ein gosod gyda'r nifer uchaf o siaradwyr yng Nghymru. Felly, nid yn unig y mae'r ffigurau yma'n sylweddol uwch na

ffigrau'r Cyfrifiad, ond maent hefyd yn dangos tuedd gwbl groes i'r Cyfrifiad o dwf mewn niferoedd a chanrannau yn Sir Gaerfyrddin, fel yn y siroedd eraill.

Gwyddwn am bwysigrwydd data ar *ddefnydd* Cymraeg yn ogystal ar gyfer cynllunio ieithyddol ystyrion. Mae'n gwbl allweddol ein bod yn cynnal cymunedau lle mae'r Gymraeg yn norm cymunedol a chymdeithasol ac nid yw nifer y rhai sy'n medru'r Gymraeg ond hanner y darlun. Yn ôl Arolygon Defnydd Iaith y Comisiynydd a'r Llywodraeth gostyngodd y ganran o siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r Gymraeg pob dydd yn Sir Gâr o 80% i 71% rhwng Arolwg 2004-06 ac Arolwg 2013-15. Roedd hyn yn debyg iawn i'r gyfartaledd cenedlaethol ac yn cyfateb â cholledion canrannol y siroedd tebyg i ni o ran dwysedd siaradwyr Cymraeg. Yn anffodus, gorffennwyd Arolwg Defnydd 2019-20 yn gynnar o achos y pandemig. Golygodd hyn fod y sampl draean yn is na'r arolygon blaenorol ac nid oedd modd dadansoddi canlyniadau'r arolwg yn ôl awdurdod lleol fel a wnaed yn yr arolygon blaenorol. Roedd y canlyniadau cenedlaethol yn awgrymu fodd bynnag fod 'dros hanner (56%) yn siarad yr iaith bob dydd (waeth beth fo lefelau eu rhuglder) o'i gymharu â 53% yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013-15, a bron i un ym mhob pump yn siarad yr iaith bob wythnos (19%, union yr un ganran ag yn 2013-15)'. Ymddengys felly fod y Gymraeg yn cael ei chynnal yn weddol lwyddiannus fel iaith gymunedol a chymdeithasol ar hyn o bryd. Yn amlwg, fe fyddai cael data ystyrion a chymharol ar ddefnydd iaith yn ddefnyddiol iawn i fesur effaith Strategaeth Hybu fel hwn i'r dyfodol.

Ar ddechrau cyfnod Strategaeth Hybu Un, gwnaed ymdrech i ganfod mwy o ddata lleol ar agweddau ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Gweinyddwyd holiadur drwy'r mentrau iaith yn bennaf a roddodd ychydig o wybodaeth defnyddiol i ni. Roedd yr adroddiad yn nodi fod 97% o'r ymatebwyr yn ystyried dwyieithrwydd yn fanteisiol ac mai 'cyfleodd gwaith' oedd fwyaf blaengar ym meddyliau bobl wrth feddwl am y manteision hynny. Canfuom mai dim ond hanner yr ymatebwyr oedd yn deall na fyddai disgyblion oedd yn derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn y sir yn debygol o fod yn ddwyieithog cyn gadael yr ysgol. Roedd hefyd modd cadarnhau fod ymwybyddiaeth yr ymatebwyr o'r cyrff sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir yn gymharol uchel (rhwng 67% a 82 %). Er gwaethaf defnyddioldeb yr arolwg hwn, roedd y sampl yn rhy fach i fod yn gynrychiadol ac roedd yn rhaid derbyn, yn ogystal, fod yr ymatebwyr yn dod o gynulleidfaoedd arferol y mentrau iaith, yn hytrach na rhoi gwybodaeth i ni am drigolion y sir yn ehangach. Er fod yna fwriad i ail-redeg yr arolwg ar ddiwedd cyfnod y strategaeth, penderfynwyd, nad oedd adnodd ar gael i'w weinyddu, ac er y byddai wedi bod yn ddefnyddiol i ddeall a oedd ein hymgyrch i godi ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg wedi cael effaith, penderfynwyd nad oedd y seilwaith angenrheidiol mewn lle ar lefel sirol i ganfod data ystyrion a chynrychioladol. Erys, felly'r bwlch yma o ran canfod effaith ymgyrchoedd ac ymyraethau'r strategaeth y tu hwn i ffigurau'r Cyfrifiad ar allu ieithyddol ein trigolion.

### 3. Seiliau: Y Gwaith a wnaed yn Strategaeth Un

Wrth lunio Strategaeth Hybu Sir Gâr 2016-2021, sefydlwyd cyfarfodydd rheolaidd o Fforwm Strategol Sirol y Gymraeg i gynorthwyo'r awdurdod lleol i gynllunio, gweithredu a chraffu ar y Strategaeth. Adnabuwyd gwaith sylweddol y Mentrau Iaith yn ogystal â'r cyrff eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sir fel asgwrn cefn y Strategaeth ac yna, yn ystod cyfnod y Strategaeth, cynhaliwyd 10 o gyfarfodydd gan edrych ar faes gwaith ar gyfer ei ddatblygu ym mhob cyfarfod. Ym mhob cyfarfod, cafwyd cyflwyniadau gan swyddogion o'r Cyngor Sir a chynrychiolwyr allweddol sy'n gweithredu yn y meysydd dan sylw. Yn dilyn y drafodaeth, lluniwyd camau gweithredu o'r newydd ar gyfer y maes gwaith. Gosodwyd y camau gweithredu mewn Cynllun Gweithredu a ddiweddarwyd fesul cyfarfod. Parhaodd y Cynllun Gweithredu yn ddogfen fyw felly drwy gydol y cyfnod. Y tu ôl i gyfarfodydd Fforwm cynhaliwyd cyfarfodydd gydag adrannau amrywiol o fewn y Cyngor i gynllunio ar gyfer y Gymraeg wrth baratoi i gyflwyno i'r Fforwm ac yna yn dilyn y cyfarfod i gynnig ac i ymrwymo i gamau gweithredu newydd.

Yn Medi 2019, cychwynnodd Meri Huws gadeirio cyfarfodydd y Fforwm yn chwarterol, gan ddarparu sefydlogrwydd ac arweiniad i'r trafodaethau a'r cyd-gynllunio. Bu'n rhaid diwygio cynnwys yr amserlen o ganlyniad i COVID-19 wrth reswm. Roedd y cyfnod clo wedi bwrw nifer fawr o ddarparwyr gwasanaethau a gweithgarwch cymunedol yn drwm ac roedd yn rhaid oedi ar y gwaith craffu ar rai meysydd o ganlyniad. Nid ataliwyd y cyfarfodydd fodd bynnag. Trosglwyddwyd yn syth i blatfform digidol heb golli dim o fomentwm nac ymrwymiad yr aelodau.

Yr amcanion a adnabuwyd ar gyfer y strategaeth oedd:

- Caffael sgiliau
- Cynyddu hyder a defnydd
- Effeithio ar symudiadau poblogaeth
- Ardaloedd blaenoriaeth
- Marchnata a hyrwyddo.

Y meysydd gwaith a adnabuwyd ar gyfer cyrraedd yr amcanion hyn ac a ddarparodd ganolbwynt i weithredu'r Cynllun Gweithredu ac i gyfarfodydd y fforwm oedd:

- Cyn-oed ysgol
- Cymraeg i Oedolion a Chymraeg yn y Gweithle
- Hamdden
- Ieuenctid
- Tai
- Cynllunio a chymathu mewnfudwyr (ac adroddiad Symud Sir Gâr wledig ymlaen)
- Adfywio
- Sector preifat
- Pobl ifanc a'r byd gwaith
- Ardaloedd blaenoriaeth.

Lluniwyd adroddiad manwl i bwysu a mesur effaith y Strategaeth yn 2022 a dâed i'r casgliad canlynol ar gynnydd a diffyg cynnydd yn erbyn yr amcanion.

### Amcan 1: Caffael sgiliau

Cynnydd da	Diffyg cynnydd
Gwaith marchnata'r Gymraeg yn y maes gofal plant, trosglwyddo iaith ac addysg : creu adnoddau	Dim digon o berchnogaeth o'r adnoddau hyrwyddo a dim prosesau sefydlog a chyson i'w dosbarthu
Nifer cynyddol o feithrinfeydd preifat cyfrwng Cymraeg	Darpariaeth Gofal Plant / cyn oed ysgol. Cynnydd y lleoliadau Cymraeg wedi darfod, trafferthion recriwtio
Datblygiadau yn y maes dysgu Cymraeg i Oedolion, gan gynnwys gweithredu ar lein, y Ganolfan yn casglu data defnyddiol a phrosiectws ar lein ar y cyd, yn golygu bod negeseuon yn gallu bod yn fwy effeithiol a mynediad i wersi yn fwy llyfn	Niferoedd dysgwyr Cymraeg i oedolion sy'n byw yn Sir Gâr yn gymharol isel yn dilyn COVID-19
Arlwy da o gyrsiau Cymraeg i athrawon ac arbenigedd mewn darpariaeth ddwys gan y Brifysgol Drindod Dewi Sant	Dim digon o gydgyllunio rhwng y ddarpariaeth gymunedol a gwaith hyrwyddo'r Gymraeg i atgyfnerthu targedau'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (SCGA)
Arlwy da a mwy cydlynus o gyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr	Dim digon o'n hathrawon yn cymryd mantais o'r arlwy dysgu sydd ar gael
Polisiau cyrff cyhoeddus yn annog datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Darpariaeth o gyrsiau Cymraeg yn y gweithleoedd amrywiol a phwrpasol	Ymdrechion i hyrwyddo arlwy anffurfiol ar y cyd i ddysgwyr heb gynyddu niferoedd
Coleg Sir Gâr yn cynyddu'r nifer o gyrsiau gall myfyrwyr ddilyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydweithio rhwng Coleg Sir Gâr a'r Brifysgol ar ddatblygu llwybrau o astudio pellach i uwch trwy gyfrwng y Gymraeg	Dim digon o gynnydd yn sgiliau Cymraeg yn y gweithle
	Diffyg data ar bobl ifanc Sir Gâr mewn addysg uwch a phellach sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

### Amcan 2: Cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg a defnydd y Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd

Cynnydd Da	Diffyg Cynnydd
Y Mentrau wedi addasu eu ffyrdd o weithredu i ymateb i sefyllfa'r Pandemig. Hyblygrwydd a gwytnwch yn y cyrff sy'n darparu'n gymunedol , e.e. CFFI	Effaith y pandemig ar aelodaeth yr Urdd. Effaith y pandemig ar yr holl sefydliadau sy'n trefnu digwyddiadau i'r cyhoedd
Canolfan yr Egin yn fan deniadol i ymgynnull, rhyngweithio a defnyddio'r Gymraeg	Effaith y pandemig ar weithgarwch yr Atom

<b>Cynnydd Da</b>	<b>Diffyg Cynnydd</b>
Sefydlu canolfan newydd cyfoes, canolog a hyfwr yn Llandeilo yn gyrchfan naturiol i'r Gymraeg	Effaith y pandemig a materion staffio ar ddarpariaeth Menter Gwendraeth Elli, yn enwedig yn Llanelli
Cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yng ngweithluoedd Cyngor Sir ac eraill	Diffyg cynnydd mewn gweinyddu yn Gymraeg er mwyn creu gweithleoedd lle mae defnyddio'r Gymraeg yn naturiol, sy'n caniatáu i bobl gynnal eu hyder yn eu sgiliau Cymraeg
Ymdrechion penodol wedi eu gwneud o fewn y maes hamdden gyda Theatrau Sir Gâr yn darparu llawer mwy o arlwy Cymraeg a chanolfannau hamdden y sir a'r marchnadoedd yn chwarae cerddoriaeth Cymraeg	Ymdrechion i ganfod ffyrdd o farchnata gweithgareddau cymunedol Cymraeg ar y cyd ac yn fwy egniol wedi pylu
	Y gwaith o ddatblygu gallu tiwtoriaid nofio i ddarparu'n Gymraeg a dwyieithog heb olygu cynnydd digonol mewn darpariaeth o wersi nofio Cymraeg. Dim system wedi ei sefydlu system sy'n cynnig na darparu gwersi Cymraeg yn ddigon cyson
	Gwaith Arweinwyr iaith o fewn adrannau ein cyrff cyhoeddus heb ddatblygu

### **Amcan 3: Effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth**

<b>Cynnydd Da</b>	<b>Diffyg Cynnydd</b>
Creu'r Pecyn Croeso	Diffyg defnydd o'r pecyn croeso.
Cychwyn ar y gwaith o gydlynu ymdrechion datblygu iaith a datblygu economi. Cychwyn cadarn o ran disgwyliadau a chyfleoedd ieithyddol ym Mhentre Awel.	Trafferthion recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r gweithlu. Pobl ifanc ddim yn gwerthfawrogi mantais eu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle.
Polisiau a gweithredoedd yn y maes tai yn cynyddu darpariaeth tai fforddiadwy, yn ennyn pobl leol i'r ddarpariaeth ac yn lleihau nifer y tai gwag yn y sir yn creu amodau ffafriol i drigolion lleol i aros yn y sir.	Prosiect y Deg Tref ddim bob amser yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddatblygu hyfwrdd y Gymraeg yn y cymunedau wrth ddatblygu'r economi
Gwaith cynllunio iaith o fewn proses y CDLL, yn enwedig datblygu methodoleg newydd i fesur effaith defnydd tir ar y Gymraeg.	Diffyg arweiniad cenedlaethol a gwybodaeth gadarn ar effaith adeiladu ar yr iaith Gymraeg o safbwynt niferoedd o leoliadau a ganiateir ar gyfer adeiladu tai a'u lleoliadau daearyddol.
Cryfhau'r polisi enwi tai a strydoedd y Cyngor.	Diffyg cydlyniant (neu gorff arweiniol) ymdrechion i baratoi pobl ifanc y Sir i'r byd gwaith a dwyn perswâd iddynt ddefnyddio a datblygu eu sgiliau iaith i'w defnyddio yn

Cynnydd Da	Diffyg Cynnydd
	y gweithle, a'u hannog i ddatblygu gyrfaoedd mewn meysydd ble mae angen siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu o fewn y sir
Sefydlu ac ehangu prosiect Profi gan Menter Gorllewin Sir Gâr.	Diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn elfen astudio a chymhwysio prentisiaethau
Sefydlu darpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yr Urdd a meithrin yn y meysydd gofal plant, chwaraeon, ac awyr agored	Diffyg gweithleoedd y Sir i ddarparu a hyrwyddo prentisiaethau cyfrwng Cymraeg
Cychwyn ar y gwaith o wella darpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn y Sir.	Diffyg corff arweiniol i gydlynu ymdrechion i wella sefyllfa prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn y sir
Ymdrechion Coleg Sir Gâr i fagu hyder pobl ifanc yn eu sgiliau Cymraeg o fewn meysydd astudio sy'n arwain at waith lle mae sgiliau Cymraeg yn benodol o angenrheidiol.	Ariannu Swyddogion <i>Helo Blod Lleol</i> yn dirwyn i ben.
Creu'r adnodd electroneg 'Y Gymraeg mewn Busnes', a'i ddsbarthu drwy brosiectau fel rhai Menter a Busnes. Gweithredu nifer o brosiectau penodol i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y sector preifat.	
Cyllid datblygu'r economi yn cael ei raeadru at brosiectau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg.	

#### Amcan 4: Targedu Ardaloedd Daaryddol o flaenoriaeth

Cynnydd Da	Diffyg Cynnydd
Denu cyllid i beilota prosiect yn yr Ardaloedd Blaenoriaeth	Cyfnod byr y prosiect peilot
Cydweithio'r tair Menter ar gyflawni ac adrodd ar y prosiect	Anhawster capasiti'r Mentrau i weithio'n ficro mewn ardaloedd penodol a darparu gweithgarwch ar draws yr ardal hefyd
	Diffyg hyblygrwydd cyrff hyrwyddo'r Gymraeg cenedlaethol i ymateb i ofynion sirol oherwydd cynlluniau a thargedau cenedlaethol
	Ffocysu ar ardaloedd digon penodol i symbylu newid
Gwaith cychwynnol Datblygu'r Gymraeg yn Llanelli: ymdrech i weithredu gyda sail tystiolaeth gadarn a gweithredu'n strategol a phartneriaethol	

### Amcan 5: Marchnata a Hyrwyddo Iaith

Cynnydd Da	Diffyg Cynnydd
Yr holl adnoddau hyrwyddo'r Gymraeg a grëwyd	Diffyg system effeithiol i ddosbarthu a defnyddio'r adnoddau a grëwyd
Rhai enghreifftiau da o ddosbarthu'r deunyddiau	Diffyg ymgyrchoedd penodol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg
Ymroddiad holl gyrff y Fforwm i drefnu gweithgarwch ar ddyddiau cenedlaethol hyrwyddo'r Gymraeg	Diffyg dylanwad ar gyrff allanol i ddosbarthu deunyddiau hyrwyddo'r Gymraeg
Ymdrechion i greu sianeli i rannu adnoddau hyrwyddo	Rhai cyrff yn dal i golli cyfle i ddosbarthu adnoddau a grëwyd gan gyrff eraill

Rhaid cofio bod yna waith sylweddol wedi digwydd ers diwedd cyfnod y Strategaeth diwethaf yn ogystal, yn enwedig yn narpariaeth gymunedol ardal Llanelli, ac yn ailsefydlu darpariaeth gynhwysfawr i gefnogi defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg y tu allan i addysg ffurfiol wedi COVID-19. Gwnaed hefyd waith partneriaeth effeithiol i gynyddu ymwneud trigolion y Sir yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023. Bydd y gwaith hwn yn cael ei adlewyrchu a'i ddatblygu yn Strategaeth Hybu 2023-2028.

Bu'r Fforwm hefyd yn ymdrechu i ddylanwadu ar y meysydd gwaith uchod drwy godi materion gyda chyrff eraill i geisio cael effaith ar yr elfennau o bolisi oedd y tu allan i gyrraedd y cyrff ar y Fforwm Sirol Strategol ar lefel sirol. Llythyrwyd gyda'r Llywodraeth a'r Comisiynydd am brentisiaethau cyfrwng Cymraeg, am weithdrefnau ymgynghori'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg, am reoliadau hysbysebu ac, yn fwy diweddar llythyrwyd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sirol am y Cynllun Llesiant drafft. Aeddfedodd y Fforwm felly i geisio dylanwadu ar lefel strategol i faterion sy'n effeithio ar y Gymraeg ac fe fydd yn parhau i wneud hyn yn Strategaeth Hybu 2023-28 wrth i faterion godi.

## 4. Nod a gweledigaeth

**Nod: Anelu at wneud y Gymraeg yn brif iaith y Sir. Ein nod yw i adfer y Gymraeg yn iaith a siaredir ac a ddefnyddir gan fwyafrif ein trigolion yn gyson, ac ym mhob agwedd o fywyd.**

Er bod aelodau'r Fforwm yn gytûn ynglŷn â pharhau gyda'r un nod i'r cyfnod nesaf o bum mlynedd, nodwyd hefyd bod awydd i newid gêr o safbwynt y nod hwn. Yn dilyn yr holl waith o gydgyllunio, dylanwadu a chydweithio a wnaed yn ystod y pum mlynedd diwethaf a chyn hynny, rydym yn teimlo fod sail ac angen i ni fod yn fwy hyderus wrth drafod y Gymraeg yn y Sir bellach. Credwn ein bod wedi cyrraedd man yn hanes y Gymraeg yn y Sir lle y dylwn symud oddi wrth 'annog defnydd' a thuag at ddatgan fod y Gymraeg yn elfen greiddiol o hunaniaeth y Sir, a chroesawu pawb at yr iaith ac at gymuned yr iaith, heb ymddiheuro. Rydym eisiau gweithredu mewn modd sy'n derbyn fod y Gymraeg yn norm yn y Sir ac nid angen cael ei 'normaleiddio' bellach. I adlewyrchu hyn, cyd-luniwyd y weledigaeth ganlynol i lywio'r ymagwedd y byddwn yn arddel wrth weithredu'r Strategaeth hon.

**Gweledigaeth: Rydym eisiau gweld cynnydd yng nghyfran trigolion Sir Gâr sy'n gallu siarad Cymraeg ac yn defnyddio'u Cymraeg yn gyson. Rydym eisiau gweld y Gymraeg yn norm gweithio a gweithredu yn sefydliadau cyhoeddus y Sir ac yn fwyfwy cyffredin ym musnesau'r Sir. Rydyn ni eisiau i'n pobl ifanc weld dyfodol iddynt yn y Sir mewn cymunedau Cymraeg cynaliadwy a ffyniannus, yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Rydym eisiau i bawb fod yn falch o'r Gymraeg yn Sir Gâr.**

Rydym hefyd yn cydnabod y bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn amlygu ardaloedd daearyddol o fewn y sir sydd heb gyrraedd y sefyllfa yma o hyder ieithyddol eto, a bydd ffigurau'r Cyfrifiad newydd yn sbarduno ein hymateb i'r heriau yma. Ar yr olwg gyntaf, ymddengys y bydd 'trosglwyddo iaith' a 'materion mewnfudo ac allfudo' yn feysydd y bydd y Strategaeth hon yn archwilio'n fanylach wrth ddadansoddi canlyniadau'r Cyfrifiad hefyd.

Bydd amcanion sylfaenol Strategaeth Un, megis creu mwy o siaradwyr hyderus, a chynnal defnydd y Gymraeg drwyddi draw yn parhau yn y Strategaeth hon wrth reswm, ond bydd yna bwyslais mwy penodol ar y Gymraeg a'r economi, y gweithlu a'r gweithle gan fod rhain yn themâu lle rydyn ni, fel Fforwm, wedi datblygu dealltwriaeth gliriach o'r modd y mae angen gweithredu er mwyn gwella sefyllfa'r Gymraeg yn y Sir.

Teimla'r Fforwm hefyd fod 'Marchnata'r Gymraeg' wedi symud ymlaen yng nghyfnod y Strategaeth hon. Ymddengys ei fod bellach yn fwy addas i'w drin ymhlyg yn yr amcanion eraill, fel nodwedd o holl waith Strategaeth Dau. Bydd y gwaith o godi statws y Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o elfennau penodol o'r Gymraeg (fel addysg Gymraeg, a'r angen am sgiliau Cymraeg yn y gweithlu) yn cael ei wneud fel rhan greiddiol o gyflawni'r amcanion oll. Fe fydd ymgais hefyd, yn ystod y cyfnod o bum mlynedd nesaf, i nodi cynulleidfaoedd o fewn y sir sydd ddim yn deall arwyddocâd a manteision dwyieithrwydd a'r iaith Gymraeg fel agwedd sylfaenol ac unigryw ar hunaniaeth a diwylliant ein sir. Byddwn ni'n ceisio cyfleu'r negeseuon hyn mewn ffyrdd newydd ac arloesol.




Fe fydd y Fforwm hefyd yn blaenoriaethu data'r Cyfrifiad, gan ddadansoddi ar lefel gymunedol y tueddiadau mwyaf arwyddocaol ac ymateb drwy gynllunio ar lefel daearyddol. Amser a ddengys beth fydd y blaenoriaethau daearyddol newydd ac fe fydd yn rhaid blaenoriaethu'n ofalus er mwyn bod yn realistig am yr hyn a all gael ei gyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Strategaeth hon yn categoreiddio'r is-amcanion yn rhai y dylid rhoi sylw iddynt yn y tymor byr, canolig a hir. Mae angen gwneud hyn er mwyn rhoi cyfeiriad clir a chydabod nad ydyw'n realistig ceisio cyflawni popeth yr un pryd. Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi maes gwaith i gyfateb â phob is-amcan, a hynny er mwyn gosod cyfeiriad gweithredol clir.

### **Dulliau Gweithredu a monitro'r Amcanion: Mecanwaith**


#### **Cynllunio:**

Gwnaed y rhan fwyaf o waith cynllunio Strategaeth Hybu Dau yng nghyfarfodydd y Fforwm Strategol Sirol. Wedi gwneud gwaith manwl ar asesu llwyddiant Strategaeth Un, cafwyd trafodaethau ar amcanion a blaenoriaethau yn deillio o hynny. Roedd y gwaith cynllunio hefyd yn cymryd mewnbwn o'r partneriaethau a'r dogfennau isod i ystyriaeth, a rhoddwyd gwagle ar gyfer dadansoddi a chloriannu goblygiadau data Cyfrifiad 2021 yn y Strategaeth yn ogystal, gan nad oedd amseru'r data yn caniatáu ystyriaeth lawn ohonynt wrth lunio Strategaeth Dau.



## Gweithredu:

Fel ar gyfer Strategaeth Un, mae holl gyrff y Fforwm yn gweithredu'r Strategaeth drwy hyrwyddo'r Gymraeg a darparu cyfleoedd i drigolion y Sir ddefnyddio'r Gymraeg. Mae manylder eu darpariaeth yn eu cynlluniau blynyddol a'u strategaeth hwy fel gyrff annibynnol. Mae'r gyrff cenedlaethol sy'n aelodau o'r Fforwm yn gweithredu yn ôl targedau cenedlaethol ar y cyfan, ac er fod eu hamcanion yn alinio'n union gydag amcanion y Strategaeth hwn, nid oes llawer o fodd cael mewnbwn i'w darpariaeth ar lefel sirol. Fodd bynnag, mae cyfarfodydd y Fforwm a'r Strategaeth Hybu hon yn gyfle gwerthfawr i sicrhau ein bod yn cyd-gynllunio ar lefel sirol o fewn ffiniau'r targedau cenedlaethol hynny. Mae'n rhaid cydnabod bod yna gyrff a phartneriaethau cymunedol sy'n cyfrannu'n anuniongyrchol i'r Strategaeth hwn. Mae nifer o gapeli a chorau, neuaddau bentref a chlybiau amrywiol yn darparu cyfleoedd cymdeithasol allweddol Cymraeg heb fod yn cyfrannu'n uniongyrchol i unrhyw strategaeth ehangach.




\*Partneriaid statudol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru a Chyngor Sir Gâr  
Er fod gwaith craidd hybu'r Gymraeg yn y Sir yn mynd rhagddo yn unol â chynlluniau cyrff unigol, fe fydd yna Gynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth hon, a fydd yn adnabod camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag amcanion y Strategaeth. Dyma fydd yn gyrru'r gwaith yn ei flaen ac fe fydd y Fforwm yn derbyn diweddariadau ar lafar oddi wrth y gyrff sy'n cyfrannu at y pwyntiau gweithredu yma'n chwarterol.

### **Monitro:**

Byddwn yn datblygu fframwaith mesur effaith, sy'n nodi mesuryddion ar gyfer amcanion y Strategaeth.

Fe fydd pob maes gwaith yn cael ei amserlenni i gyfarfodydd y Fforwm yn ei dro ac wrth i'r meysydd gwaith gael sylw yng nghyfarfodydd y Fforwm Sirol. Bydd pob maes gwaith yn cael ei drafod ddwywaith yng nghyfnod y Strategaeth ac fe fydd y data felly'n cael ei ddiweddarau ddwywaith. Bydd hyn yn galluogi'r Fforwm i dracio cynnydd yn unol â'r amcanion wrth i'r cyfnod o bum mlynedd fynd rhagddo.

Ar ddiwedd y pum mlynedd, fe fydd dadansoddiad manwl o sefyllfa'r Gymraeg yn y Sir yn cael ei baratoi, a fydd yn rhoi gwybodaeth manwl i ni ar effaith y Strategaeth a'r cynllun gweithredu. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ystadegol o gyfrifiadau ac arolygon cenedlaethol yn ogystal.



\*Mae'r Fframwaith mesur effaith yn cynnwys data PLASC, data o fesuryddion Llesiant Cenedlaethol, data gan ddarparwyr ayb.

## 5. Amcanion, Is-amcanion, meysydd gwaith a phrif bartneriaid

Amcan 1. Cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg

Amcan 2. Cynnal balchder, defnydd a hyder trigolion y Sir yn y Gymraeg

Amcan 3. Y Gymraeg yn norm yn y gweithle a'r gweithlu

Amcan 4. Cymunedau Cymraeg sy'n ffynnu

Tymor Byr

Tymor Canolig

Tymor hir

Amcan	Is amcan	Maes Gwaith	Prif bartneriaid
Cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg	Gwneud y Gymraeg yn norm yn y cyfnod cyn oed ysgol	Cyn oed ysgol: Gofal plant, Addysg cyn oed ysgol,  Hyrwyddo addysg Gymraeg,  Ôl 16: addysg blynyddoedd cynnar a hyfforddiant maes blynyddoedd cynnar,	- Gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd (CSG) - Mudiad Meithrin - Cymraeg i Blant - Cymraeg i Oedolion - meithrinfeydd preifat Dechrau'n Deg (CSG) - Grwpiau rheini a babanod - Adran blynyddoedd cynnar llywodraeth Cymru - Cwlwm - Adran Addysg a Phlant CSG - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - Coleg Sir Gâr, -Hywel Dda
	Cynyddu cyfran y teuluoedd sy'n trosglwyddo iaith ar yr aelwyd	Trosglwyddo iaith,  Cyfleoedd cymdeithasol . cymunedol	- Mentrau iaith - Adran Addysg CSG - Cymraeg i Blant - Cylchoedd meithrin - Siopau Cymraeg - S4C

Amcan	Is amcan	Maes Gwaith	Prif bartneriaid
			<ul style="list-style-type: none"> <li>- Yr Egin</li> <li>- Hywel Dda</li> <li>- Yr Atom</li> <li>- Uned y Gymraeg</li> <li>- Ilywodraeth Cymru</li> <li>- Neuaddau pentref</li> </ul>
	Cefnogi amcanion y CSGA o wella dilyniant disgyblion mewn addysg Gymraeg o un cyfnod sylfaen i'r llall	Hyrwyddo addysg Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Adran Addysg CSG</li> <li>- Ysgolion Sir Gâr</li> <li>- Mentrau</li> </ul>
	Sicrhau bod trigolion Sir Gâr yn deall am Gymreictod y sir ac yn gwybod bod cyrsiau Cymraeg ar gael i bawb	<p>Cymraeg i Oedolion</p> <p>Cymathu mewnfudwyr</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Prifysgol Aberystwyth</li> <li>- Tîm Datblygu'r Gymraeg CSG</li> <li>- Mentrau iaith</li> <li>- cynghorau tref a chymuned</li> <li>- Gwasanaeth lechyd</li> <li>- Cyrff cyhoeddus</li> <li>- neuaddau cymunedol</li> <li>- Adran Dai CSG</li> <li>- Cymdeithasau Tai</li> <li>- Ysgolion y sir</li> <li>- Busnesau gwyliau</li> </ul>
	Cefnogi hwyrddyfodiaid ifanc a'u teuluoedd i integreiddio i addysg Gymraeg	<p>Hyrwyddo Addysg Gymraeg</p> <p>Cyfleoedd cymdeithasol / cymunedol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>-Mentrau</li> <li>-Ysgolion</li> <li>-Tîm Datblygu'r Gymraeg CSG</li> <li>-Urdd</li> </ul>
	Cefnogi disgyblion ysgolion cyfrwng Saesneg i uniaethu â a pherchnogi'r iaith Gymraeg	<p>Cymathu mewnfudwyr</p> <p>Cyfleoedd cymdeithasol / cymunedol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Mentrau</li> <li>- Ysgolion</li> <li>- Tîm Datblygu'r Gymraeg CSG</li> <li>- Urdd</li> </ul>
	Cefnogi mewnfudwyr hŷn i gymunedau gwledig y sir heb iddynt effeithio'n andwyol ar ddefnydd y	<p>Cymraeg i Oedolion</p> <p>Cyfleoedd cymdeithasol / cymunedol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Prifysgol Aberystwyth</li> <li>- Cymraeg i Oedolion CSG</li> <li>- Mentrau</li> </ul>

Amcan	Is amcan	Maes Gwaith	Prif bartneriaid
	Gymraeg yn y gymuned		- Merched y Wawr - Neuaddau cymunedol
	Cynyddu nifer trigolion Sir Gâr sy'n dysgu Cymraeg	Cymraeg i oedolion	- Prifysgol Aberystwyth - Adran Addysg CSG - Canolfan Dysgu Cymraeg - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - Cyrff cyhoeddus
<b>Cynnal balchder, defnydd a hyder trigolion y sir yn y Gymraeg</b>	Sicrhau bod cyfleoedd i holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg Gymraeg y sir i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r ysgol  Cynnal a hyrwyddo cyfleoedd hamdden i blant a phobl ifanc: mentrau, yr Urdd, CFFI, clybiau chwaraeon, adran hamdden y sir	Cyfleoedd cymdeithasol/cymunedol	- Mentrau iaith - Urdd - CFFI - Actif Sir Gâr - Coleg Sir Gâr - Cangen Coleg Cymraeg Prifysgol y Drindod Dewi Sant - clybiau chwaraeon - busnesau hamdden - siarter iaith
	Sicrhau ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig a chynyddu defnydd disgyblion ail iaith o'u Cymraeg y tu allan i'r ysgol	Cyfleoedd cymdeithasol/cymunedol]  Ymwybyddiaeth iaith	- Mentrau iaith - urdd - Yr Egin - Atom - siarter iaith - Actif
	Creu continwwm didor o addysg cyfrwng Cymraeg statudol i addysg pellach i bobl ifanc y sir	Ôl 16	- Coleg Cymraeg - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant Coleg Sir Gâr - Ysgolion y Sir
	Sicrhau bod ein holl bobl ifanc yn parhau i ddatblygu a defnyddio'u sgiliau	Ôl 16	- Coleg Cymraeg - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Amcan	Is amcan	Maes Gwaith	Prif bartneriaid
	Cymraeg wrth symud o addysg statudol i addysg pellach ac uwch o fewn y sir		- Coleg Sir Gâr - Ysgolion y Sir
	Sicrhau fod ein pobl ifanc yn deall manteision parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a bod modd iddyn nhw wneud hynny	Ôl 16	- Coleg Cymraeg - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - Coleg Sir Gâr - Ysgolion y Sir - Mentrau Iaith
	Sicrhau ymwybyddiaeth eang trigolion y sir o holl gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol, Cymraeg y sir  Marchnata a hyrwyddo	Cyfleoedd cymdeithasol/cymunedol	- Theatrau sir Gâr, - Yr Egin, - Yr Atom, - Neuaddau Cymunedol, - Corau, - Canolfannau Cymraeg a chanolfannau treftadaeth, - Mentrau Iaith
	Cynyddu defnydd y sector preifat a'r trydydd sector o'r Gymraeg drwy hyrwyddo Helo Blod, canllawiau a chymorth amrywiol	Sector preifat	- Mentrau Iaith - Adran datblygu economaidd CSG - Menter a Busnes - Antur Cymru
	Sicrhau bod defnydd digidol bywiog o'r Gymraeg ymysg trigolion y sir Cyfryngau cymdeithasol: - Presenoldeb y Gymraeg a Chymreictod ar y cyfryngau cymdeithasol, - cyrraedd cynulleidfaoedd newydd gyda chynnwys Cymraeg, - deunydd Cymraeg digidol newydd,	Cyfleoedd cymdeithasol / cymunedol	- S4C - Mentrau Iaith - Canolfan Dysgu Cymraeg - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - Yr Egin - Ysgolion - Llywodraeth Cymru

Amcan	Is amcan	Maes Gwaith	Prif bartneriaid
	<ul style="list-style-type: none"> <li>- rhwydweithio digidol Cymraeg,</li> <li>- Rhannu llwyddiannau am y Gymraeg ac yn Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol</li> </ul>		
	Cynyddu defnydd trigolion Sir Gâr o wasanaethau cyhoeddus cyfrwng Cymraeg Hyrwyddo gwasanaethau, codi disgwyliadau ac ymwybyddiaeth	Sector cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyrff cyhoeddus</li> <li>- Comisiynydd y Gymraeg</li> <li>- BGC</li> </ul>
<b>Y Gymraeg yn norm yn y gweithle a'r gweithlu</b>	Sicrhau cynnydd blynyddol yn sgiliau Cymraeg gweithluoedd y sector cyhoeddus	Sector cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyngor Sir Gâr</li> <li>- Gwasanaeth Iechyd</li> <li>- Heddlu Dyfed Powys</li> <li>- Comisiynydd Heddlu</li> <li>- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru</li> <li>- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant</li> <li>- Coleg Sir Gâr</li> <li>- BGC</li> </ul>
	Cynyddu faint o weinyddu sy'n digwydd yn Gymraeg a nifer y gweithleoedd sy'n gweinyddu'n Gymraeg	Sector cyhoeddus	Y cyrff uchod
	Cynnal defnydd anffurfiol y Gymraeg yn y gweithle	Sector cyhoeddus	Y cyrff uchod
	Recriwtio siaradwyr Cymraeg i weithluoedd o flaenoriaeth	Ôl 16	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Partneriaeth Sgiliau a gwaith,</li> <li>- Mentrau iaith,</li> <li>- Coleg Sir Gâr,</li> <li>- Pentre Awel,</li> </ul>



Amcan	Is amcan	Maes Gwaith	Prif bartneriaid
	Hyrwyddo cyfleoedd gwaith lle mae angen y Gymraeg fel sgil		- Cwlwm, - Gyrfa Cymru, - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
	Cynyddu darpariaeth addysg bellach ac uwch Cymraeg o fewn y sir Hyrwyddo darpariaeth Gymraeg Coleg Sir Gâr a Phrifysgol y Drindod	Ôl 16	- Coleg Cymraeg - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - Coleg Sir Gâr - ysgolion uwchradd y sir
	Gwella mynediad at hyfforddiant proffesiynol Cymraeg	Ôl 16	Colegau a phrifysgolion, byrddau achredu proffesiynol
	Cynyddu nifer y lleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu darparu yng ngweithleoedd y sir	Ôl 16	- Profi, - sefydliadau cyhoeddus, - colegau, - byrddau arholi ac achredu, - rhaglenni cenedlaethol, prentisiaethau
	Hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr yn y byd gwaith, yn enwedig i bobl ifanc	Ôl 16	Gyrfa Cymru, Profi, mentrau - ymwybyddiaeth iaith, cyngor gyrfaoel - PSB
<b>Cymunedau Cymraeg sy'n ffynnu</b>	Sicrhau bod datblygiadau strategol ac economaidd yn cael effaith gadarnhaol ar ffyniant y Gymraeg yn y sir	- Rhaglenni a chynlluniau strategol  - Datblygu economaidd	- Deilydd Portffolio Economi Cyngor Sir - Adran datblygu economaidd CSG - partneriaid Arfor - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - Pentre Awel, - Prosiect y Deg Tref, - y Gronfa ffyniant cyffredin,

Amcan	Is amcan	Maes Gwaith	Prif bartneriaid
			- mentrau cymunedol, - Llywodraeth Cymru
	Sicrhau bod polisïau'r CDLL yn sbarduno ffyniant y Gymraeg yn y gymuned ac yn yr economi	Cynllunio defnydd tir  Tai cymdeithasol a thai cyngor	- Adran gynllunio CSG - Cydbwyllgorau corfforaethol
	Sicrhau bod datblygiadau deddfwriaethol ynglŷn a defnydd tai a thir yn cael eu defnyddio er budd y Gymraeg yn y sir		CSG Llywodraeth Cymru
	Dadansoddi data'r cyfrifiad ac ymateb gydag ymyraethau a chynlluniau	Data'r Cyfrifiad	- Fforwm Sirol - Tîm data CSG - mentrau iaith
	Cefnogi cynaladwyedd canolfannau Cymraeg a chanolfannau treftadaeth a chymunedol sy'n gweithredu yn Gymraeg. Marchnata, hyrwyddo a chynyddu capasiti Canolfannau sy'n annog defnydd y Gymraeg	Datblygu economaidd	- Mentrau iaith - CSG
	Dylanwadu ar raglenni economaidd a strategol sirol a chenedlaethol i sicrhau budd i gymunedau gwledig	Datblygu economaidd	- Fforwm Strategol Sirol - Datblygu Economaidd CSG - Tîm Polisi CGS - Uned y Gymraeg, Hywel Dda, - Partneriaeth Fwyd Gynaliadwy
	Cynyddu argaeledd tai ar gyfer pobl ifanc y sir yn enwedig pob ifanc sy'n dod o'r sir	Tai	- Adran Dai CSG - Cymdeithasau Tai

MAE'R DUDALEN HON YN WAG YN FWRIADOL

MAE'R DUDALEN HON YN WAG YN FWRIADOL

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R  
GYMRAEG**

**05 MAI 2023**

**GWERTHUSIAD O AROLYGIADAU ESTYN AR DRAWS  
YSGOLION SIR GAERFYRDDIN, UNEDAU CYFEIRIO DISGYBLION  
A LLEOLIADAU ARBENIGOL**

**Pwrpas:**

Rhoi trosolwg i'r pwyllgor craffu o ganlyniadau arolygiadau Estyn, y meysydd o gryfder a'r argymhellion a ddarparwyd.

**Ystyried y materion canlynol a chyflwyno sylwadau arnynt:**

Ystyried canfyddiadau'r adroddiad a llywio cyfeiriad strategol yr adran wrth symud ymlaen.

**Y Rhesymau:**

Sicrhau bod canlyniadau arolygiadau Estyn yn parhau i wella. Sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n dda wrth fynd i'r afael ag argymhellion.

**Angen cyfeirio'r mater at y Cabinet / Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad:**

Nac Oes

**Yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y portffolio:-**

Cyng. Glynog Davies (Addysg a'r Gymraeg)

<b>Y Gyfarwyddiaeth:</b> Addysg a Phlant	<b>Swyddi:</b>	<b>Rhifau ffôn: / Cyfeiriadau E-bost:</b>
<b>Enw Pennaeth y Gwasanaeth:</b> Aneirin Thomas	Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant	01267 246645 <a href="mailto:ARThomas@sirgar.gov.uk">ARThomas@sirgar.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>  Marian Morgan	Uwch Ymgynghorydd Gwella Addysg	07870 515 492 <a href="mailto:MMCMorgan@sirgar.gov.uk">MMCMorgan@sirgar.gov.uk</a>
Llinos Jones	Prif Ymgynghorydd Gwella Addysg Dros Dro	07973879908 <a href="mailto:LlinoJones@sirgar.gov.uk">LlinoJones@sirgar.gov.uk</a>
Elin Forsyth	Arweinwyr Strategol Effeithiolrwydd Ysgolion	07584004000 <a href="mailto:EMForsyth@sirgar.gov.uk">EMForsyth@sirgar.gov.uk</a>

# EXECUTIVE SUMMARY

## AN EVALUATION OF ESTYN INSPECTIONS ACROSS CARMARTHENSHIRE SCHOOLS, PUPIL REFERRAL UNITS AND SPECIALIST SETTINGS

### 1. BRIEF SUMMARY OF PURPOSE OF REPORT.

This report is written in response to a request for information from the Education, Young People & the Welsh Language Scrutiny Committee to be updated on the outcomes of Estyn inspections.

The report provides an overview of Estyn outcomes for the past five years, noting those schools requested to provide case studies based on effective practice within their schools.

Recommendations following Estyn inspections are shared within the report, noting how these recommendations are analysed and used to inform the business planning and the strategic focus of the department, including how professional learning opportunities are influenced in relation to key themes.

Reference to the Estyn profile during our last Local Authority inspection in 2012 is also provided.

DETAILED REPORT ATTACHED?

YES

## IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:

**Signed:** Elin Forsyth Strategic lead for School Effectiveness

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
<b>NONE</b>	<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>

### Legal

In accordance with the provisions of Part 2 of the *School Standards and Organisation (Wales) Act 2013* (hereinafter referred to as “the Act”) and Welsh Government Statutory Guidance Document (222/2017) *Schools Causing Concern* the Education and Children’s services department is required to serve schools with a formal **Warning Notice** should they be placed in a statutory category noting the requirement for immediate improvement.

### Finance

Schools are required to routinely ensure that improvement priorities are met. This could have financial implications depending on the nature of the recommendations and the capacity of the school from a leadership and Teaching and learning perspective.

## CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below:

**Signed:** Elin Forsyth Strategic lead for School Effectiveness

### Relevant Partners

The Education and Children’s Services Department engages each term with the Estyn Local authority link inspector to reflect on the outcomes of Estyn inspections.

Schools, settings and pupil referral units routinely engage with the Education and Children’s services departmental officers addressing school improvement, including the outcomes of Estyn inspections.

**EXECUTIVE BOARD PORTFOLIO HOLDER(S) AWARE/CONSULTED- Yes**

**Include any observations here**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information  
List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THERE ARE NONE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



# An evaluation of Estyn Inspections across Carmarthenshire Schools, Pupil Referral Units and Specialist Settings



[sirgar.llyw.cymru](http://sirgar.llyw.cymru)  
[carmarthenshire.gov.wales](http://carmarthenshire.gov.wales)

Cyngor Sir Gâr  
Carmarthenshire  
County Council



## An evaluation of Estyn Inspections across Carmarthenshire Schools, Pupil Referral Units and Specialist Settings

In the two years leading up to the COVID-19 pandemic in March 2020, 44 Carmarthenshire schools were inspected-

- 39 primary schools,
- 3 secondary schools,
- 1 special setting
- and the local authority pupil referral unit.

Standards and Leadership were judged good or better in the majority of schools. A minority of schools were in need of improvement and were placed in a follow-up category. Many of the schools inspected in this period were judged good or excellent for wellbeing and attitudes to learning and care support and guidance. This is a notable feature.

The COVID-19 pandemic caused the suspension of inspections of schools and Estyn re-started their inspection schedule in March 2022. However, Estyn throughout the pandemic period undertook engagement visits and thematic reviews with schools.

Since March 2022 there is a new inspection framework and Estyn no longer provide summative judgments for individual inspection areas. Inspectors can still place a school into Estyn Review if they judge that the school would benefit from a short period of time to improve a few aspects of their work. The two statutory categories of follow-up remain unchanged. This is where schools need significant improvement or require special measures.


When inspectors identify particularly strong or effective practice, the school is invited to produce a written case study to share with other providers on Estyn's website. Since September 2017, the following Carmarthenshire schools have been invited to prepare a good practice case study for dissemination on the Estyn website.

Year	School	Case Study
2017-18	Llangynnwr	<b>Wellbeing:</b> Intervention programs for pupil wellbeing
2017-18	Ysgol Feithrin Rhydaman	Developing children's early leadership roles
2017-18	Pembrey	<b>Teaching &amp; Learning experiences:</b> developing pupils' independent learning skills
2017-18	Johnstown	<b>Standards:</b> Developing ICT skills across the curriculum
2017-18	Brynsierfel	<b>Teaching &amp; Learning experiences:</b> Provide effective opportunities for pupils to relax their bodies and minds at the beginning of sessions so that they are ready to learn
2017-18	Beca	<b>Curriculum:</b> effect of a creative and practical curriculum on pupils' standards and independence

2018-19	Strade	<b>Wellbeing:</b> supporting pupils emotional wellbeing <a href="https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/improving-pupils-emotional-wellbeing">https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/improving-pupils-emotional-wellbeing</a>
